

RYDYM NI YMA I HELPŲ

Cymorth ychwanegol pan fydd
ei angen arnoch chi



RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee

CROESO

Welcome from James,
our Managing Director

Croeso gan James,
ein Rheolwr Gyfarwyddwr

Rydym yn falch o'ch gwasanaethu chi, eich cymdogion, a thros 100,000 o gartrefi a busnesau eraill ledled canolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru.

Gallwch ddibynnu arnom ni i fod yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn ymatebol i'ch anghenion.

Rydym yn deall bod amgylchiadau pawb yn wahanol, a gall bywyd newid yn annisgwyl. Dyna pam rydyn ni'n cynnig ystod o wasanaethau wedi'u teilwra i'ch cefnogi.

- Angen eich bil mewn fformat neu iaith wahanol? Peidiwch â phoeni.
- Yn cael trafferth talu eich bil? Rydyn ni yma i helpu.
- Oes gennych broblem gyda'r cyflenwad dŵr? Gallwn ddarparu cefnogaeth ychwanegol.

Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod, mae ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau

Blaenoriaeth (PSR) am ddim ac yn hawdd. Mae'n ein helpu i ddeall eich anghenion yn well fel y gallwn gynnig y gefnogaeth gywir pan fydd arnoch ei hangen fwyaf.

Weithiau gall gofyn am help deimlo braidd yn llethol, boed hynny ynglŷn â'ch bil neu adrodd am brofedigaeth. Dyna pam mae ein tîm Gofal a Chymorth yma i chi. Gallwch gysylltu â nhw dros y ffôn, ar-lein, neu ymweld â ni yn bersonol yn ein swyddfa yn Wrecsam.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol gwych i ledaenu'r neges am y gefnogaeth sydd ar gael.

Ers ein creu yn 2018, rydym wedi gwneud cynnydd mawr, ac rydym am wneud hyd yn oed mwy yn y blynyddoedd i ddod. Os gwelwch chi ein tîm Cyswllt Cymunedol allan o gwmpas, stopiwch am sgwrs. Byddem wrth ein bodd yn clywed sut y gallwn eich gwasanaethu'n well.



CYNNWYS

Ein blaenoriaethau a'n haddewid	4
Mewnbwn cwsmeriaid a rhanddeiliaid	5
Crynodeb o ymchwil	6
Ein cynllun i godi ymwybyddiaeth	8
Ein blaenoriaethau newydd a'n haddewid i gyflwyno ar gyfer ein cwsmeriaid	10
Aros ar y trywydd iawn	11
Cysylltwch â ni	12

EIN BLAENORIAETHAU A'N HADDEWID

Mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni, felly rydym yn gweithio'n galed i ddeall beth yw blaenoriaethau ein cwsmeriaid, er mwyn helpu i lunio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Boed yn sgysiau wyneb yn wyneb yn ein cymuned, yn adborth uniongyrchol ar unrhyw un o'n sianeli cyswllt cwsmeriaid, neu'n ymchwil amhrisiadwy a wnawn gyda'n cwsmeriaid, mae'r cyfan yn wybodaeth hanfodol. Ac mae'n dweud wrthym beth mae ein cwsmeriaid ei eisiau.

Cyflenwadau dibynadwy – Gyda thoriadau cyflenwad ac achosion o bwysedd isel wedi'u cadw i'r lleiafswm

Cymorth pan fo angen – Mewn argyfyngau, ar ôl digwyddiadau neu wrth brofi trafferthion ariannol.

Bod yn gyfleus ac yn hawdd siarad â ni – Cyflwyno profiad cwsmeriaid o ansawdd uchel a bod ar gael yn ôl yr angen.

Mae cydnabod anghenion a blaenoriaethau ein cwsmeriaid yn golygu y gallwn:

Darparu gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn ein galluogi i deilwra ein cefnogaeth i amgylchiadau ac anghenion ein cwsmeriaid.

Eich cefnogi, nawr ac yn y dyfodol

Drwy gynlluniau cymorth ariannol a mesuryddion clyfar i roi rheolaeth i chi a gwneud biliau'n fwy fforddiadwy.

Bod yn hawdd siarad â ni

Mae ein tîm Datrysiadau i Gwsmeriaid ymroddedig yn Wrecsam yno i ddarparu'r cymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnoch ar brydiau.

Ei gwneud hi'n hawdd cael cefnogaeth

Rydym yn cadw llygad am gwsmeriaid y gallai fod angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnynt trwy weithio gyda phartneriaid allanol ac elusennau ar draws ein rhanbarth, gan godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau a'n cynlluniau.

Rhoi mwy o gefnogaeth ehangach i'n cymunedau

Rydym yn buddsoddi yn y lleoedd lle rydych chi'n byw, i greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a darparu hyfforddiant sgiliau bywyd i hybu incwm.

Cynnig biliau fforddiadwy a theg

Mae ein cwsmeriaid yn elwa o'r bil isaf yng Nghymru (ac un o'r isaf o'i gymharu â Lloegr) ac rydym bob amser yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi dŷr trwy gynnig lefelau hael o gefnogaeth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen (hyd at 70% oddi ar y bil cyfartalog).

MEWNBWN CWSMERIAID A RHANDDEILIAID

Ers ein lansio, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r profiad i'n cwsmeriaid.

Dau ffactor allweddol sy'n sbarduno'r gwelliant hwn yw:

- Ein rôl yn y gymuned, sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr i ni drwy sgysiau wyneb yn wyneb â chwsmeriaid.
- Ein data mewnol, sy'n ein helpu i fireinio a gwella ein gwasanaethau'n barhaus.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi llunio ein Strategaeth Cwsmeriaid Bregus newydd.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi treulio llawer o amser yn siarad â phobl ar draws ein hardal, gan gynnwys cwsmeriaid bregus, er mwyn deall yn well beth yw eu barn am ein cymorth. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid i sicrhau bod ein strategaeth newydd yn adlewyrchu eu hanghenion a'u disgwyliadau.

Dyma gipolwg ar yr hyn y mae ein cwsmeriaid wedi'i ddweud wrthym—a'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn:



CRYNODEB O'R YMCHWIL

Rydym wedi dysgu llawer gan ein cwsmeriaid ym mhum mlynedd cyntaf Hafren Dyfrdwy, a ninnau wedi gweithio'n galed i wneud newidiadau yn seiliedig ar adborth gan ein cwsmeriaid a'n sefydliadau partner. Dyma rai o'r newidiadau allweddol a wnaethom rhwng 2020 a 2025.

Cwsmer

Yr Hyn a Ddywedodd ein	Ein bod wedi'i Gyflawni hyd yma
Mynediad cyflym a syml i gefnogaeth	- Cyflwyno rhif ffôn am ddim ar gyfer ein Tîm Gofal a Chymorth, gan ei gwneud yn haws i gwsmeriaid ein cyrraedd ni. - Lansio ein rhaglen Cymeradwywr Hyfforddedig, gan alluogi partneriaid dibynadwy i asesu cymhwysedd cwsmeriaid ar gyfer cynlluniau cymorth, a thrwy hynny leihau rhwystrau i fynediad. - Symud sianeli cyswllt swyddfa flaen mewnol i'n swyddfa leol yn Wrecsam, gan sicrhau gwell rheolaeth a gwasanaethau i gwsmeriaid. - Symleiddio'r gofyniad tystiolaeth incwm ar gyfer ein tariff cymdeithasol o dri mis i fis, gan ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gymhwyso. - Gweithredu proses gofrestru awtomatig ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. - Datblygu'r Hwb Yma i Helpu, platfform ar-lein reddfól lle gall cwsmeriaid gael mynediad at ein holl wasanaethau cymorth mewn un lle. - Cyflwyno'r 'Cyfrifiannell Gwella Eich Byd' mewn partneriaeth â Pholisi ar Waith, gan ddarparu offeryn asesu cynhwysfawr i gwsmeriaid ddeall eu sefyllfa ariannol a'r gefnogaeth sydd ar gael.
Buddsoddi mewn cymunedau	- Dyfarnwyd dros £200,000 i 26 o sefydliadau ar gyfer prosiectau a chyllid craidd, yn cefnogi tua 28,000 o gwsmeriaid yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. - Llunio partneriaeth â Gyrfaedd Cymru yn Wrecsam i gynnig cyflogadwyedd ac arweiniad ar yrfaoedd mewn ysgolion, gan helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol. - Cyflwyno ein rhaglenni addysg yn fewnol er mwyn eu teilwra'n well i anghenion ein cynulleidfaoedd Cymreig, gan sicrhau perthnasedd ac effaith.
Mae'r gefnogaeth rydyn ni'n ei chynnig yn cael ei gwerthfawrogi. Fodd bynnag, mae sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gefnogaeth yn allweddol.	Cyflwyno negeseuon testun am ddigwyddiadau i hysbysu cwsmeriaid sydd wedi bod heb gyflenwad ar ôl digwyddiad, casglu adborth, a hyrwyddo Gwasanaethau Blaenoriaeth.
Cynnig a hyrwyddo sianeli cyswllt nad ydynt yn ddigidol	Dosbarthu cardiau gwybodaeth mewn bagiau presgripsiwn mewn ardaloedd gwledig i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, hyd yn oed os nad ydynt yn defnyddio sianeli digidol.
Rhyngweithio wyneb yn wyneb	Lansio ein cerbyd cymunedol 'Dilys,' sy'n teithio i ardaloedd gwledig ac ardaloedd sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, gan ddarparu cymorth a gwybodaeth wyneb yn wyneb i gwsmeriaid.
Meithrin perthnasoedd â'n cymunedau Cymreig	Cyflogi tri asiant newydd sy'n siarad Cymraeg yn ein tîm sy'n ymdrin â chwsmeriaid i wella ein gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a meithrin cysylltiadau cymunedol cryfach.

Data

Manylion	Yr hyn rydym wedi'i gyflwyno hyd yma
Gwahaniaethau rhanbarthol	Cydnabod ac ymdrin ag anghenion unigryw gwahanol ranbarthau i sicrhau cefnogaeth wedi'i theilwra.
Mae cysylltiad cryf a chynyddol rhwng iechyd meddwl ac arian	Teilwra cysylltiadau rhagweithiol i hyrwyddo cefnogaeth, fel anfon negeseuon testun i gwsmeriaid â chyflyrau iechyd meddwl cofrestredig yn lle eu ffonio, i leihau straen a gwella cyfathrebu.
Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio gyda chynnydd mewn salwch cronig ymhlith yr henoed a'r boblogaeth iau	- Sefydlu partneriaethau agos gydag Age UK ac Age Cymru i ddarparu cefnogaeth dargedig. - Cofrestru cwsmeriaid oedran pensiwn yn awtomatig ar Wasanaethau Blaenoriaeth i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol. - Cyflwyno proses adnewyddu awtomatig i gwsmeriaid oedran pensiwn sy'n elwa o'n Tariff Cymdeithasol, gan ganiatáu iddynt yn syml gadarnhau nad yw eu hamgylchiadau wedi newid yn hytrach nag ail-ymgeisio.
Mae nifer cynyddol o gwsmeriaid angen cymorth oherwydd cyflwr iechyd meddwl	- Ffurio partneriaethau gyda Mind ac elusennau iechyd meddwl lleol i ddarparu cefnogaeth arbenigol. - Cyflwyno gwasanaeth atgyfeirio cwnsela mewn cydweithrediad â PontHafren, elusen leol, i gynorthwyo cwsmeriaid mae angen cefnogaeth iechyd meddwl arnynt.
Hyrwyddo cefnogaeth mewn fformatau byr, hawdd eu darllen gyda mwy o gynrychiolaeth weledol	Cynnal ymchwil cwsmeriaid i wella ein dogfen strategaeth a'r Hwb Yma i Helpu newydd, gan sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn hawdd ei deall.
Poblogaeth gynyddol o gwsmeriaid â nam ar eu golwg a'u clyw, yn enwedig ym Mhowys.	Mewn partneriaeth ag RNID ac RNIB i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a gynigiwn a sicrhau ei fod yn hygyrch i gwsmeriaid â nam ar eu golwg a'u clyw.

EIN CYNLLUN I GODI YMWHYBYDDIAETH

Mae codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a gynigiwn yn rhan ganolog o'n cynllun nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio ar bedwar ffrwd waith, fel y dangosir yn y ddelwedd isod, i'n helpu i gyflawni ein targed o 65% a chyflawni ein haddewidion i gwsmeriaid.

Ein cynllun ar gyfer y gymuned

Credwn mai'r ffordd orau o weithio gyda chymunedau yw bod yn rhan ohonyn nhw. Mae gennym dîm ymroddedig o Gysylltwyr Cymunedol a'u rôl yw ymgysylltu â sefydliadau a chymunedau ar draws ein rhanbarth, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a gynigiwn. Byddwn yn ehangu ein tîm o Gysylltwyr Cymunedol drwy gyflogi Cysylltydd sy'n siarad Cymraeg, fel y gallwn barhau i ganolbwyntio ein hymagwedd hynod leol a gwella ein darpariaeth i gymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Ein cynllun ar gyfer partneriaethau

Byddwn yn adeiladu ar ein rhestr bresennol o bartneriaid dibynadwy, gan ychwanegu sefydliadau newydd sydd wedi'u halinio'n strategol gan ategu ein hymrwymiad i gefnogi cwsmeriaid mewn ffyrdd sy'n darparu gwerth uniongyrchol ac ystyrlon.

Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau sy'n arbenigo mewn meysydd penodol, fel cefnogi ein poblogaeth sy'n heneiddio a chwsmeriaid â nam ar eu golwg, fel Age Cymru, RNID, ac RNIB. Wrth wneud hyn byddwn yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau allweddol gan sicrhau y gall pobl gael mynediad hawdd at wasanaethau ac adnoddau hanfodol drwy sianeli cyswllt o'u dewis.

Bydd y partneriaethau hyn yn rhoi mynediad i ni i wybodaeth arbenigol ac yn ein helpu i gael mewnwelediadau gwerthfawr i anghenion penodol cwsmeriaid, fel y gallwn deilwra'r negeseuon a'r sianeli o amgylch y gefnogaeth a gynigiwn.

Gallai hyn gynnwys helpu cwsmeriaid sydd wedi'u heithrio'n ddigidol gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein, neu barhau i godi ymwybyddiaeth drwy sianeli cyswllt mwy traddodiadol, fel grwpiau cymunedol lleol, meddygfeydd a phartneriaid dibynadwy. Ym mhob achos, rydym eisiau'r gefnogaeth a ddarparwn i fod yn effeithiol, yn fesuradwy, ac yn gynaliadwy, gan greu gwahaniaeth cadarnhaol parhaol i gwsmeriaid a rhanddeiliaid fel ei gilydd.

Ein cynllun ar gyfer data

Mae mwy y gallwn ei wneud i nodi cwsmeriaid a allai fod angen help, rhoi gwybod iddyn nhw beth sydd ar gael a sut y gallai eu helpu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth fanwl sydd gennym am ein cwsmeriaid, gyda chyfathrebiadau cryf a deniadol i wneud mwy o bobl yn ymwybodol.

Bydd ein system bilio newydd, Kraken, yr ydym yn ei chyflwyno yn 2025, yn cefnogi hyn, gan roi golwg sengl o'n cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu y gallwn deilwra cyfathrebiadau ar gyfer pob grŵp cwsmeriaid, gan roi eu taith eu hunain a defnyddio negeseuon a fydd yn berthnasol iddyn nhw.

Er enghraifft, gallem wneud hyn i helpu i ddatrys problem gyfredol lle mewn ardal benodol rydym yn gwybod bod y potensial am dlodi dŷr yn uwch, tra bod cyrhaeddiad PSR a chynlluniau cymorth yn gymharol isel. Defnyddio gwybodaeth ddaearyddol ac economaidd-gymdeithasol, wedi'i gorchuddio â data dewis cwsmeriaid, gallwn adeiladu ymgrych wedi'i thargedu sy'n cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar PSR a cheisiadau i'n cynllun Yma i Helpu.

Drwy ddefnyddio data fel hyn gallwn wneud ein cyfathrebu'n fwy effeithiol wrth gryfhau perthnasoedd gyda chwsmeriaid. Gallwn ni grwpio cwsmeriaid yn haws yn seiliedig ar ffactorau mewnol fel patrymau defnyddio dŷr ochr yn ochr â nodweddion eraill. Gallai hyn ein helpu i nodi cwsmeriaid sydd fwy tebygol o fod angen cymorth neu fod yn gymwys ar gyfer rhai cynlluniau penodol. Pan fyddwn yn creu cyfathrebiadau, gallwn wedyn eu haddasu gyda negeseuon clir a syml gan ddefnyddio sianeli o ddewis y cwsmer.

Gan adeiladu ar hyn, gallwn wneud cyswllt rhagweithiol drwy ein Cysylltwyr Cymunedol a'n partneriaid dibynadwy, ochr yn ochr â Hwb Yma i Helpu sydd wedi'i ddatblygu ymhellach, i wneud yn siŷr ein bod yn cyrraedd pawb. Nid yn unig y byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, ond byddwn hefyd yn ceisio meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad, gan ddangos y gwir ofal sydd gennym am les cwsmeriaid.

Rydym wedi dangos sut y gall hyn weithio wrth gofrestru'n awtomatig i'n tariff cymdeithasol Yma i Helpu. Gan adnabod rhyw 500 o gwsmeriaid nad ydynt yn talu a lle rydym eisoes wedi ceisio adfer arian, fe wnaethom ddefnyddio data credyd a demograffig i'w trosi'n uniongyrchol i'r tariff. Ar yr un pryd â lleihau eu baich ariannol, gwelsom welliant hefyd mewn ymgysylltiad gan gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt.

Wrth i'n system Kraken ddod ar waith, byddwn yn chwilio am gyfleoedd pellach fel y rhain i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'r gwasanaeth y maent yn ei haeddu.

Ein cynllun ar gyfer pobl

Mae ein cysylltiadau partneriaeth yn ffynhonnell ardderchog o gyngor a gwybodaeth arbenigol a fydd yn ein helpu i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar hyn wrth hyfforddi ein timau mewnol ein hunain fel y gallant gefnogi bregusrwydd penodol ein cwsmeriaid yn well. Mae cael staff gyda'r sgiliau gwell hyn ond yn gallu cryfhau ymhellach y gwasanaeth a gynigiwn.

EIN BLAENORIAETHAU NEWYDD A'N HADDEWID I GYFLAWNI AR GYFER EIN

Ein blaenoriaethau newydd a'n haddewid i gyflawni ar gyfer ein cwsmeriaid

Pan ddechreuon ni ddatblygu ein Strategaeth Cwsmeriaid Bregus, roedden ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig deall beth sy'n wirioneddol bwysig i chi, ein cwsmeriaid. Helpodd hyn ni i lunio ein Haddewidion i Gwsmeriaid—ymrwymadau clir sy'n adlewyrchu eich anghenion a'ch disgwyliadau.

Darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein Cymorth Gofal Ychwanegol yn cyd-fynd ag anghenion y cwsmer ac yn dilyn y Canllawiau 'Gwasanaeth i Bawb'.

Bod yn hawdd siarad â ni.

Byddwn yn ei gwneud hi'n syml i gwsmeriaid gysylltu â ni drwy gynnig ystod eang o opsiynau cyswllt, gan sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch ar draws pob sianel.

Ehangu cefnogaeth yn ein cymunedau

Byddwn yn tyfu ein strategaeth cymorth cymunedol a chymdeithasol—nid yn unig yn helpu gyda biliau, ond hefyd yn mynd i'r afael â heriau ehangach fel diweithdra.

Rydym bellach wedi mireinio'r addewidion hyn i arwain ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, diffinio sut y byddwn yn mesur cynnydd, a sicrhau ein bod yn ein dal ein hunain yn atebol.

Isod mae ein hymrwymadau tymor byr, canolig a hir i ddarparu cefnogaeth ystyrlon:

Cefnogi cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn defnyddio ffyrdd newydd o feddwl i gynnig cynlluniau a gwasanaethau sy'n cefnogi ein cwsmeriaid heddiw—ac yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) am flynyddoedd i ddod.

Ei gwneud hi'n hawdd cael cefnogaeth.

Byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael drwy ehangu ein rhwydwaith o bartneriaid dibynadwy a dod o hyd i ffyrdd newydd, arloesol o wneud cymorth yn haws i gael mynediad iddo.

Cynnig biliau fforddiadwy a theg.

Byddwn yn parhau i weithio i fynd i'r afael â thlodi dŷr ar draws ein rhanbarth, gan gynnal un o'r biliau cyfartalog isaf yng Nghymru a Lloegr.

AROS AR Y TRYWYDD IAWN

Er mwyn sicrhau ein bod yn aros ar y trywydd iawn ac yn cyflawni ein haddewidion i gwsmeriaid, rydym wedi rhoi mesurau cryf ar waith.

Ochr yn ochr â lansiad ein Panel Ymgynghorol Gofal Ychwanegol, byddwn yn cynnal cysylltiad rheolaidd â'r Cyngor Defnyddwyr

Dŷr. Bydd y cydweithio parhaus hwn yn ein helpu i fonitro cynnydd yn erbyn ein targedau a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymadau.

Am drosolwg manwl o'n strategaeth lawn a'n hymrwymadau, [cliciwch yma].



CYSYLLTIADAU



Biliau a thaliadau

Gallwch gofrestru i reoli eich cyfrif ar-lein os nad ydych chi eisoes wedi cofrestru. Y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw eich rhif cyfrif Hafren Dyfrdwy.

hdwater.co.uk/login



Cysylltwch â'n tîm

Cysylltwch â'n tîm drwy WhatsApp.



Biliau, taliadau, a mesuryddion dŵr drwy ffonio

0330 678 0679

Dydd Llun i Ddydd Gwener: 9am to 5pm

Mae gennym wasanaeth ffôn testun i helpu eincwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, a'r rhif yw **0800 328 1155**.

Cymraeg

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.



Rhif ffôn gwasanaethau dŵr a gwastraff

0800 085 8033. Argyfyngau a phroblemau cyflenwi. Ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.



Anfon e-bost atom

Customer.care@hdcymru.co.uk



Ysgrifennu atom ni

Hafren Dyfrdwy, PO Box 507,
Darlington, DL1 9XF



Rhifau rydyn ni'n eu defnyddio pan fyddwn ni'n eich ffonio chi'n ôl

Os ydych chi wedi ceisio ein ffonio ni ac rydych chi'n aros mewn ciw, efallai y byddwch chi'n dewis trefnu i ni eich ffonio'n ôl. Os gwnewch chi hynny, byddwn yn eich ffonio o rif sy'n dechrau gyda **02477**.

HAFREN DYFRDWY

VULNERABILITY STRATEGY

How we're supporting customers
who need extra help.



severn dee

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP